**Cyngor Partneriaeth Cymru – 24 Tachwedd 2022 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan CLlLC am Newid Hinsawdd**

## Pwrpas

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau nodedig ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth, a hynny'n gyffredinol ac yn benodol ar waith y **Panel Strategaeth Hinsawdd** (PSH)[1] a **Rhaglen Cefnogi Pontio ac Adfer CLlLC.**

## Cefndir

2. Roedd adroddiad yng **nghyfarfod** diwethaf y Cyngor Partneriaeth ar **6 Gorffennaf 2022** yn nodi cefndir sefydlu'r Panel Strategaeth Hinsawdd. Mae'n rhoi crynodeb o waith y Panel hyd yma a chomisiynau a gyhoeddwyd trwy Raglen Cefnogi Pontio ac Adfer CLlLC (ariennir y Rhaglen gan Lywodraeth Cymru).

3. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu datblygiadau pwysig ers mis Gorffennaf cyn rhoi diweddariad am waith y Panel a'r Rhaglen Cefnogi Pontio ac Adfer.

## Datblygiadau sylweddol

4. Ers y cyfarfod diwethaf, gwelwyd y digwyddiadau nodedig canlynol:

   - Cyhoeddodd **Archwilio Cymru** adroddiad ym mis Gorffennaf a ddaeth i'r casgliad ei fod yn 'ansicr' p'un a fydd y sector cyhoeddus yn gallu cyrraedd ei darged hinsawdd sero net erbyn 2030. Amlygodd yr adroddiad mai dim ond dau o'r 48 corff cyhoeddus yr oedd wedi siarad â nhw oedd wedi cyfrifo faint y byddai'n ei gostio.

   - Cafwyd **tywydd poeth iawn** ym mis Gorffennaf/Awst, gyda rhybudd coch o dywydd poeth am y tro cyntaf mewn rhannau o'r DU, ond oren yng Nghymru (lle cyrhaeddodd y tymheredd record o 37.1$^{o}$ yn Sir y Fflint). Gostyngodd lefelau cronfeydd dŵr yn sylweddol a chyflwynwyd gwaharddiad ar bibelli dŵr mewn rhannau o Gymru. Adroddodd ffermwyr eu bod wedi cynaeafu eu cnydau sawl wythnos yn gynharach na'r arfer.

   - Bu **tanau gwair** mewn sawl rhan o Gymru (yn ogystal â rhai ar raddfa llawer mwy a difrifol ledled Ewrop) wrth i'r cyfnod hir o dywydd sych arwain at danau a oedd yn lledaenu'n gyflym ar ôl tanio.

[1] Sefydlwyd Panel y Strategaeth Ddatgarboneiddio ar gais cyfarfod y Cyngor Partneriaeth ym mis Mehefin 2020. Yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ar 7 Gorffennaf 2021, cytunwyd y dylid ymestyn gwaith y Panel i gynnwys addasu a gwytnwch ac felly newidiwyd yr enw i'r Panel Strategaeth Hinsawdd er mwyn adlewyrchu'r cylch gorchwyl cyffredinol.

- Rhybuddiodd **Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU** y bydd niferoedd marwolaethau o ganlyniad i wres yn treblu dros y degawdau nesaf nes 2050, oni bai fod mwy yn cael ei wneud i fynd i'r afael â gorboethi mewn **tai**. Nododd bod y broblem yn un ddifrifol iawn mewn fflatiau yng nghanol trefi a dinasoedd

- Hefyd ym mis Gorffennaf, dyfarnodd yr **Uchel Lys** nad yw strategaeth sero net Llywodraeth y DU ar gyfer y DU yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Newid Hinsawdd. Canfuwyd nad yw'n rhoi manylion digonol ynglŷn â sut y bydd yn cyrraedd y targed sero net erbyn 2050 ar gyfer y DU yn gyffredinol. Dyfarnodd bod "diffyg unrhyw asesiad meintiol o'r cyfraniadau a ddisgwylir gan bolisïau unigol i leihau allyriadau [nwy tŷ gwydr]…" yn y strategaeth.

- Adroddodd **Y Swyddfa Dywydd** bod lefelau'r môr bellach yn codi rhwng 3 a 5.2mm y flwyddyn, sy'n fwy na dwbl y gyfradd gynyddu ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

- Ym mis Hydref, cyn cynhadledd COP 27 (yn Sharm el-Sheikh, yr Aifft o 6 - 18 Tachwedd), siaradodd **Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig** am y posibilrwydd o 'drychineb byd-eang'. Galwodd ar wledydd y G20, sy'n cynhyrchu 80% o allyriadau tŷ gwydr byd-eang, i wneud mwy o ymdrechion i ostwng allyriadau a buddsoddi mwy mewn ynni adnewyddadwy.

- Yn agoriad cynhadledd COP 27, mae'r pwyslais wedi bod ar sicrhau nad oes unrhyw lithro yn ôl o ymrwymiadau rhyngwladol a wnaed yn COP 26 yng Nglasgow y llynedd. Parheir i ganolbwyntio ar 'bontio teg' a galw am gyllid 'colled a difrod', gyda gwledydd mwy cyfoethog yn cael eu hannog i helpu cenhedloedd sy'n datblygu i ddelio â'r problemau y maent eisoes yn eu hwynebu o ganlyniad i newid hinsawdd

- Mae gwaith cynllunio ar y gweill ar gyfer **Wythnos yr Hinsawdd Cymru** a gynhelir yn yr wythnos sy'n dechrau ar 21 Tachwedd.

5. Mae'r datblygiadau uchod, i gyd o fewn y chwe mis diwethaf, yn tynnu sylw at y proffil sy'n tyfu a'r ymdeimlad o frys sydd ynghlwm wrth y bygythiad a realiti newid hinsawdd. Mae'n bwysig nodi hefyd bod Arweinwyr Cynghorau a hyrwyddwyr / aelodau arweiniol Newid Hinsawdd wedi cyfarfod ar 27 Gorffennaf i drafod pwysigrwydd eu tymor gweinyddol presennol, sy'n mynd â ni i 2027, a sut y gall cynghorau gydweithio mewn modd strategol, gan rannu arferion da a gwersi a ddysgwyd.

## Cynnydd y Panel Strategaeth Hinsawdd a'r Rhaglen Cefnogi Pontio ac Adfer

6. Mae'r Panel wedi bod yn darparu arweiniad strategol i waith y Rhaglen sydd, yn ei hun, yn anelu at gefnogi cynghorau i gyflawni ymrwymiadau llywodraeth leol yng nghynllun Cymru Sero Net (sydd ynghlwm eto er cyfleustra yn Atodiad 1).

7. Mae'r Panel wedi cael tri chyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth, a bydd y pedwerydd yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod â'r cyfarfod hwn. Mae'r ffocws yn y cyfarfodydd hynny wedi bod fel a ganlyn:

    - *21 Gorffennaf*: datgarboneiddio ystâd y sector cyhoeddus; diweddariad am waith caffael
    - *20 Medi*: y wybodaeth ddiweddaraf am gymorth i ddatgarboneiddio ar y tir a rôl arweinyddiaeth Aelodau etholedig a swyddogion perthnasol; ystyried sut i hyrwyddo gwaith ar addasu
    - *20 Hydref*: argyfwng ynni a chynllunio ymlaen; strategaeth wres; adolygu cynnydd cynghorau.

8. Ar y pwyntiau olaf uchod ynghylch a**dolygu cynnydd cynghorau** (a gytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth), cafodd Miller Research ei gomisiynu gan CLlLC a bydd yn ymgymryd â'r gwaith dros y misoedd nesaf. Gofynnir i bob un o'r 22 cyngor sut maent wedi ymgymryd â'u gwaith datgarboneiddio dros y deunaw mis diwethaf. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar allyriadau a adroddir gan bob cyngor yn y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn cael arwydd cynnar o p'un a yw'r rhain yn symud i'r cyfeiriad cywir ac ar y cyflymder gofynnol.

9. Gofynnir i Gynghorau hefyd sut maent yn wynebu'r risgiau sy'n gysylltiedig ag addasu, fel yr amlinellir yn Asesiad Risg ar gyfer Cymru gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UKCCC) (gweler UK-CCRA-2017-Wales-National-Summary.pdf (theccc.org.uk) . Nid oes disgwyl i bob cyngor gael ei gynllun addasu ei hun. Yn hytrach, bydd yr adolygiad yn edrych ar lefelau ymwybyddiaeth o'r risgiau a nodwyd a pha gamau gweithredu, os o gwbl, sydd eisoes yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau sydd fwyaf perthnasol i weithredoedd cynghorau (yn lleol ac yn rhanbarthol).

10. Mae CLlLC yn gweithio gyda UKCCC ar yr elfen addasu yn yr astudiaeth. Mae UKCCC yn edrych ar addasu ar draws pob corff yn y sector cyhoeddus. Bydd gwaith Miller yn ein galluogi i gynnal asesiadau mwy manwl o weithgarwch cynghorau a bydd yn dilyn yr un fethodoleg ag UKCCC i sicrhau cysondeb. Disgwylir y canlyniadau tua gwanwyn nesaf.

11. O ran y **Rhaglen Cefnogi Pontio ac Adfer**, mae cynnydd fel a ganlyn ar gyfer y ffrydiau gwaith a adroddwyd eisoes:
    - **Newid ymddygiad** - datblygu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu gydag adnoddau / gweithdai ategol
    - **Caffael -** datblygu pecyn gwaith (gyda hyfforddiant) sy'n dod ag amryw o adnoddau ynghyd i helpu i wneud dewisiadau cynaliadwy a fydd yn lleihau allyriadau, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer cynorthwyo i ymgysylltu â chadwyni cyflenwi
    - **Cludiant -** gweithio gyda Gwasanaethau Ynni LlC i gynorthwyo i gynllunio ar gyfer fflyd gerbydau allyriadau sero a lleihau allyriadau 'fflyd lwyd'; gweithio ar ddull costau oes gyfan a dull costau carbon wrth ddatblygu achosion busnes; cynhyrchu deunyddiau ategol i fwydo i mewn i waith ar gynllunio datblygu strategol. Mae grŵp tasg a gorffen wedi'i sefydlu gan Gymdeithas Trysoryddion Cymru i gefnogi ymrwymiadau cludiant a wnaed yn 'Cymru Sero Net', gan gynnwys gwaith ar y cyd i gaffael cerbydau trydan.
    - **Arweinyddiaeth** - cyfres o weithdai ar gyfer swyddogion cynghorau sy'n arwain ar agweddau amrywiol ar waith newid hinsawdd; gweithio gydag Arweinwyr i sicrhau goruchwyliaeth wleidyddol o'r broses
    - **Dosbarthiadau meistr** - mae'r gyfres hon, gyda chynghorau'n rhannu arferion da, wedi parhau gan ddenu llawer o fynychwyr.

12. O ran y pwynt olaf ond un, mae paragraff 5 uchod yn cyfeirio at gyfarfod agoriadol Arweinwyr a Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd / Aelodau, a drefnwyd gan Arweinydd CLlLC, y Cyng. Andrew Morgan ym mis Gorffennaf. Mae ail gyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer Wythnos yr Hinsawdd (mae mwy o fanylion am Wythnos yr Hinsawdd Cymru yn Atodiad 2).

13. Bydd yr ail gyfarfod hwn ar gyfer Arweinwyr / Aelodau Arweiniol wedi'i gynnal ar 23 Tachwedd, diwrnod cyn y Cyngor Partneriaeth, a gellir rhoi diweddariad ar lafar yn y cyfarfod. Y testun cyntaf a drafodir yw'r cyswllt rhwng **argyfyngau newid hinsawdd a cholli natur**. Mae tywydd mwy eithriadol yn arwain at gymysgedd o sychder, tanau gwyllt, llifogydd a newidiadau a allai fod yn anwrthdroadwy i natur. Mae un o bob 10 rhywogaeth yn y DU eisoes mewn perygl o ddifodiant ac adroddir bod dros hanner y bywyd gwyllt yn y DU yn gostwng. Mae cyswllt anorfod rhwng argyfyngau natur a hinsawdd ac mae'n rhaid dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r ddau gyda'i gilydd. Yn wir, yn aml gall natur helpu i ddarparu datrysiadau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r risgiau sydd ynghlwm wrth newid hinsawdd. Mae dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 Cynghorau (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) yn hanfodol yn hyn o beth. Mae'n mynnu fod rhaid i awdurdodau cyhoeddus: "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled â'i fod yn cyd-fynd ag ymarfer eu swyddogaethau yn briodol ac wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau".

14. Yr ail destun a drafodir yn y cyfarfod yw cynllunio ar gyfer gofynion ynni dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys datblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol i fwydo i mewn i strategaeth ynni genedlaethol i Gymru. Mae hwn yn fater sydd wedi dod hyd yn oed yn gliriach dros y misoedd diwethaf oherwydd y cynnydd presennol mewn prisiau ynni a'r effaith ar yr argyfwng costau byw ehangach. Gall cymryd camau i leihau lefelau defnyddio ynni a gwella effeithlonrwydd ynni gyfrannu nid yn unig at fynd i'r afael â chostau byw sy'n cynyddu, ond hefyd â newid hinsawdd ac argyfyngau cyllidebol a wynebir gan gynghorau.

**Argymhellion**


15. Argymhellir bod y Cyngor Partneriaeth yn:
    - nodi datblygiadau diweddar a gwneud sylwadau am y ffrydiau gwaith amrywiol sydd ar y gweill, gan amlygu unrhyw feysydd nad ydynt yn cael eu cwmpasu ar hyn o bryd y teimlir y dylid eu cynnwys
    - Nodi a chefnogi'r cynnydd yn y ffrydiau gwaith fel yr amlinellir ym mharagraff 11, gan gynnwys gwaith y grŵp tasg a gorffen Cymdeithas Trysoryddion Cymru ar ymrwymiadau cludiant
    - amlygu, trwy CLlLC, ei rôl wrth wirio cynnydd a nodwyd gan yr adolygiad ym mharagraffau 8-10.

**ATODIAD 1 – cynllun gwaith y Rhaglen Cefnogi Pontio ac Adfer yn erbyn ymrwymiadau Llywodraeth Leol**

# Net Zero Wales LG Commitments

| | TaRSP Support |
|---|---|
| **Buildings**<br>- Develop and deliver a strategic plan for decarbonising local authority estate.<br><br>Ystadau Cymru as strategic lead;<br>- Strategic plan for decarbonising buildings by end of 2023.<br>- All public buildings supplied with low carbon heat by 2030.<br>- All new public sector buildings are built to net zero standard. | • Decarbonisation Masterclass on Buildings held on February 16th. Sharing best practice on Re:fit programme and retro fitting older buildings.<br><br>• Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly. |
| **Procurement**<br>- Develop understanding of emissions profile of all procured goods and services by end of 2022.<br>- Carbon reduction specifications in all new or reviewed contracts.<br>- Focus on a number of priority contracts and share learning re. decarb across LAs by end 2022 – to develop a decarb approach to be applied to all contracts by 2023. | • Commissioned support on procurement and scope 3 emissions<br><br>• Masterclass on Procurement in planning for later this year.<br><br>• Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly |
| **Mobility & Transport**<br>- Build on fleet reviews and develop plans for transforming fleet, inc. EV charging infrastructure, all new cars and light goods vehicles ULEV by 2025, reduce carbon footprint of buses, taxis and private hire vehicles to zero by 2030.<br>- Grey fleet review to be completed by end of 2022 (working with WGES)<br>- Support remote working where possible, at home or in hubs. Encourage active travel and public transport. | • Commissioned targeted support on low carbon infrastructure and transport that focuses on skills, making the business case, planning and grey fleet.<br><br>• Masterclass on Transport held 19th January, currently planning a masterclass on Active Travel with case studies from Nottingham City Council<br><br>• Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly |
| **Land Use**<br>- Map out local authority land holdings by April 2022 to identify types of land and their potential for carbon sequestration, renewable energy and flood management.<br>- Carbon sequestration seen as a core purpose for public land by leaders.<br>- Develop 5 year training and apprenticeship programme and peatland restoration to support the supply chain. | • Commissioned support on land based decarbonisation that includes guidance to embed LBD across relevant service areas and establishing a streamlined tool for councils<br><br>• Masterclass on Land Use held in March<br><br>• Resource bank on website. Ongoing and being updated regularly |

**ATODIAD 2 WYTHNOS YR HINSAWDD CYMRU**




**Virtual conference (21-23 Nov):**

Bringing together partners to discuss a collective approach to supporting the public in taking action on climate change.

**Fringe events programme (21 Nov-*14 Dec*):**

Deliberative consultation in the form of workshops and events to involve marginalised groups in discussion on climate change.

**Nod y gynhadledd ar-lein: Ymgysylltu â phartneriaid Tîm Cymru i drafod y strategaeth ymgysylltiad cyhoeddus.**

**Fformat: cynhadledd ar-lein am 3 diwrnod gan gynnwys sesiynau am:**

- Newid hinsawdd a rôl cymdeithas.
- Dyfodol cludiant yng Nghymru.
- Hinsawdd a'r cyswllt ag iechyd a lles.
- Adeiladu gwytnwch i newid hinsawdd yn ein cymunedau.
- Ymgysylltu â'r gymuned a datrysiadau cymunedol.
- Datrysiadau hinsawdd a natur.
- Ansawdd aer a newid hinsawdd.
- Argyfwng tanwydd y gaeaf, arbedion ynni a datgarboneiddio ein cartrefi.
- Deall rhwystrau cymdeithas i ddylunio systemau ynni newydd.
- Rheoli defnydd a gwastraff (ailddefnyddio, atgyweirio, ailgylchu).
- Ffasiwn gynaliadwy.
- Dewisiadau bwyd cynaliadwy.
- Gwyddoniaeth ymddygiadol a goresgyn rhwystrau cymdeithas i weithredu.
- Sector cyhoeddus, diwydiant a busnes (arwain trwy esiampl).
- Diwydiannau creadigol (gweledigaeth o ddyfodol hinsawdd).
- Pontio teg